



Mewnfudo a Chyflogaeth yng Nghymru

Pwyntiau allweddol

- Er bod polisi ar fewnfudo economaidd wedi'u datganoli, mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb i fewnfudwyr economaidd sy'n byw yng Nghymru, o dan ei **swyddogaethau tai, iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol** a thrwy ei hagenda cydlyniad cymunedol
- Er 2005, mae **canran y gweithwyr ymfudol yng ngweithlu Cymru wedi dyblu i 9.2%**, sef tua 82,600 o weithwyr. Y prif darddleoedd yw Asia ac Oceania (2.8%), Gorllewin Ewrop (2.4%) a'r gwelydd derbyn A8 a ymunodd â'r yr UE yn 2004. Y prif wledydd tarddiad yw **Gwlad Pwyl, India, Yr Almaen Iwerddon, Ynysoedd y Philippines, De Affrica a'r Unol Daleithiau**
- Ymunodd tua **22,300 o fewnfudwyr o ganol a dwyrain Ewrop â marchnad lafur Cymru rhwng Mai 2004 a Mawrth 2008**. Mae dros hanner y gweithwyr ymfudol o ganol a dwyrain Ewrop yn byw yn **Sir Gaerfyrddin, Caerdydd, Casnewydd a Wrecsam**
- Cafodd y prif gymunedau ymfudol yng Ngogledd Cymru eu hadnabod fel **Wrecsam**, ystad ddiwydiannol **Glannau Dyfrdwy** ac ardaloedd o'i amgylch, **Gogledd Sir y Fflint, Llandudno, Bangor** a ffratioedd yn **Llangefni a Gaerwen** ac yn Ne Cymru, **Llanelli, Caerdydd a Chasnewydd**
- Er y credir yn eang fod mewnfudo'n arwain at ddiweithdra uwch a chyflogau is, nid oes tystiolaeth neu fawr ddim tystiolaeth i gefnogi'r honiad hwn. I'r gwrthwyneb, **mae lefelau uchel yn ddiweddar o ran ymfudo mewnol, ar y cyfan, wedi bod o fantais sylweddol i economi'r DU**
- Dim ond ychydig (os unrhyw beth) o arwyddion o effeithiau negyddol sydd ar **farchnad lafur Cymru**; yn hytrach, mae tystiolaeth **bod ymfudo yn gyffredinol yn cynrychioli hwb economaidd sylweddol i Gymru**
- **Nid yw mewnfudwyr yn cynyddu diweithdra** oherwydd maent yn aml yn gweithio mewn sectorau a rhanbarthau sydd â lefel uchel o swyddi gwag sy'n anodd eu llenwi. **Nid oes unrhyw effeithiau negyddol ar gyflogau cyfartalog neu maent yn fach iawn**
- Mewn rhai ardaloedd megis Sir Gaerfyrddin, Casnewydd a Wrecsam, mae cynnydd o ran gweithwyr ymfudol wedi golygu bod **gwasanaethau wedi wynebu** mwy o bwysau, naill ai drwy alw ychwanegol neu drwy newidiadau angenrheidiol i'r dull o gyflwyno'r gwasanaeth.
- **Mae gweithwyr ymfudol yn cyfeirio at broblemau gyda chyflogwyr diegwyddor, diffyg sgiliau Cymraeg a Saesneg, ac mewn rhai achosion, gwasanaethau a addaswyd yn wael**. Gall y materion hyn achosi unigedd a chael effaith uniongyrchol ar allu gweithwyr ymfudol unigol i wireddu eu potensial ac integreiddio i gymdeithas Cymru.
- Mae nifer o astudiaethau wedi nodi **adroddiadau am arferion anghyfreithlon** o ran cyflogi gweithwyr ymfudol yng Nghymru
- Mae gan ffoaduriaid sy'n byw yng Nghymru hawl i weithio ond maent yn aml yn cael profiad o **lefelau uchel o dangyfloaeth a diweithdra**

Lluniwyd gan yr Athro Heaven Crawley, Y Ganolfan Ymchwil i Bolisiâu Mewnfudo (CMPR), Prifysgol Abertawe ar ran Partneriaeth Mewnfudo Cymru (WMP)

Cyhoeddwyd Medi 2013

www.wmp.org.uk

Ffôn 029 2090 9550

Ffacs 029 2090 9510

E-bost Anne.Hubbard@wmp.org.uk

Y cyd-destun polisi

Pennir penderfyniadau ar bwy sy'n cael gweithio yn y DU yn ganolog gan lywodraeth y DU yn San Steffan. Mae dwy system ar wahân ar gyfer gwladolion yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA) a gwladolion nad ydynt yn rhan o'r EEA. Ac eithrio Bwlgariaid a Rwmaniaid (tan ddiwedd 2013) a Croatiaid, mae gan wladolion yr EEA a'r Swistir hawl i weithio yn y DU heb geisio am ganiatâd. Mae amgen i fewnfudwyr economaidd o'r tu allan i'r EEA a'r Swistir sydd eisiau gweithio yn y DU gael caniatâd o dan y System sy'n Seilliedig ar Bwyntiau (PBS).

Er nad yw pwerau sy'n perthyn i fewnfudo llafur wedi'u datganoli, mae ar Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb dros fewnfudwyr economaidd sy'n byw yng Nghymru o dan ei swyddogaethau tai, iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol a thrwy ei hagenda cydlyniad cymunedol. O ganlyniad, **mae gan Lywodraeth Cymru rôl allweddol i'w chwarae o ran sicrhau bod mewnudwyr yn mynd yn rhan o gymdeithas Cymru.**

Datblygir polisiâu tuag at fewnfudwyr economaidd sy'n dod i Gymru er mwyn gweithio, yng nghyd-destun agenda strategol, yn benodol y Rhaglen Lywodraethu (2011), ac o fewn fframwaith deddfwriaeth y DU, Ewrop a deddfwriaeth ryngwladol.

Mae'r Rhaglen Lywodraethu'n rhestru camau gweithredu penodol y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd er mwyn 'creu cymdeithas deg sy'n rhydd rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erlid gyda chymunedau cydlynol a chynhwysol' (Llywodraeth Cymru 2011). Nod y Llywodraeth yw gwneud hyn drwy leihau anghydraddoldeb o ran addysg a sgiliau, iechyd, tai a deilliannau cyflogaeth ar gyfer pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig (gan gynnwys hil), cynyddu cyfraddau boddhad o ran gwasanaethau cyhoeddus a lleihau achosion o droseddau casineb.

Daeth **dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus** (Deddf Cydraddoldeb 2010) y cyfeirir ati fel y 'ddyletswydd gyffredinol' i rym ym mis Ebrill 2011 a'i nod yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus a'r rhai sy'n ymgymryd â swyddogaeth gyhoeddus yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd drwy roi ystyriaeth deilwng i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da.

Er mwyn i gyrff cyhoeddus berfformio'u dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus (PSED), Llywodraeth Cymru oedd y llywodraeth gyntaf i ddod â dyletswyddau cydraddoldeb penodol fel y'u rhestrir yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Cafodd y rheoliadau eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a daethant i rym ar 6 Ebrill 2011.

Mae'r dyletswyddau penodol yn llawer mwy pellgyrhaeddol yng Nghymru nag yn Lloegr ac yn rhoi dyletswyddau ar y sector cyhoeddus sy'n ymwneud ag ymgysylltu, asesiadau effaith ar gydraddoldeb, gwahaniaethau o ran cyflog, caffael, trefniadau

adrodd, adolygu, a gwybodaeth am gydraddoldeb a chyflogaeth. Cyhoeddodd awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru eu hamcanion o ran cydraddoldeb a'u Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol ym mis Ebrill 2012 a restrodd yn glir y camau gweithredu y mae'r sector cyhoeddus yn eu cymryd i wireddu'r ddyletswydd cydraddoldeb.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu pecyn croeso ar gyfer mewnudwyr, **Understanding Wales** (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2006) i sicrhau bod pobl sy'n dod i Gymru i fyw ac i weithio yn ymwybodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau ac, yn ogystal, rhoddir gwybodaeth iddynt am ble y gallant gael cymorth a chynghor os byddant yn wynebu problemau, gan eu helpu i ymgartrefu yn eu cymunedau newydd (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2010).

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn datblygu **polisiâu i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cydraddoldeb a hyrwyddo cysylltiadau da**. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyfuno deddfwriaeth cydraddoldeb flaenorol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban ac yn cynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb yn y Sector Cyhoeddus newydd a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2011. Yn gyfreithiol, mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus (gan gynnwys cynghorau lleol, yr heddlu, ysgolion ac ysbytai) sy'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau i roi 'ystyriaeth deilwng' i'r angen i gymryd camau gweithredu ar ystod o 'nodweddion gwarchoddedig' gan gynnwys hil, anabled a chydaddoldeb rhywiol. Mae'n rhaid iddynt ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da.

Polisiâu Cyflogaeth yng Nghymru

Rhennir cyfrifoldeb dros gyflogaeth a'r farchnad lafur yng Nghymru rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Mae ar Lywodraeth y DU gyfrifoldeb ar gyfer materion macro-economaidd a threthiant, dros bob agwedd ar ddeddfwriaeth cyflogaeth a rhaglenni dychwelyd i'r gwaith. **Mae gan Lywodraeth Cymru bwerau i hyrwyddo datblygiad yr economi yng Nghymru**, trwy gefnogi twf busnes e.e. drwy gyngor a chymorth grant, caffael, a marchnata a thrwy ddarparu cyngor ac annog ymarfer da mewn cyflogaeth. (EHRC 2009).

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, **mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus a restrir fonitro ei staff yn ôl grŵp hiliol (gan ddefnyddio categorïau cyfrifiad 2011) ar gyfer staff sydd mewn swyddi a cheisiadau am gyflogaeth, a dyrchafiadau a hyfforddiant**. Yn ogystal, mae'n rhaid i gyflogwyr sydd â mwy na 150 aelod o staff fonitro ar gyfer hyfforddiant, gwerthusiadau perfformiad, cwynion, camau disgyblu a rhesymau am adael eu cyflogaeth. Mae'n rhaid cyhoeddi darganfyddiadau'r monitro hwn yn flynyddol.

Mae gweithgarwch ac anweithgarwch economaidd yng Nghymru wedi denu llawer o sylw yn y blynyddoedd diwethaf, yn bennaf oherwydd bod cyfraddau gweithgarwch economaidd yng Nghymru yn is o lawer na rhai gweddill Prydain ac maent yn

ffactor allweddol yng Ngwerth Ychwanegol Crynswth Cymru sy'n is na'r cyfartaledd. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o ddadansoddiadau a'r drafodaeth wedi canolbwyntio ar gyfraddau cyffredinol anweithgarwch ac nid ydynt wedi ystyried profiadau grwpiau gwahanol o fewn y farchnad lafur.

Data a niferoedd

Mae cyfran y gweithwyr ymfudol ym marchnad lafur y DU wedi cynyddu'n sylweddol dros yr 20 mlynedd diwethaf, yn codi o 3.5% ym 1993 i 9.2% yn 2011 (Arsyllfa Mewnffudo 2012). Mae cyfran y gweithwyr ymfudol yng Nghymru wedi cynyddu hefyd, er bod amrywiaeth ddaearyddol sylweddol. Mae data o'r Arolwg o'r Llafurlu yn dangos bod canran y mewnfudwyr yng nghyfanswm y boblogaeth o oedran gweithio yng Nghymru wedi cynyddu o 2.9% yn 1992 i 4.6% yn 2005 (Dustmann et al. 2007). Yn ôl yr Arolwg Blyneddol o Boblogaeth (APS) diweddaraf ar gyfer Cymru (Llywodraeth Cymru 2013), **mae canran y gweithwyr ymfudol yn llafurlu Cymru wedi dyblu i 9.2%**, sy'n cynrychioli tua 82,600 o weithwyr.

Prif ranbarthau tarddiad gweithwyr ymfudol yng Nghymru yw Asia ac Oceania (sef 2.8% o gyfanswm y gweithlu), gwledydd Gorllewin Ewrop (2.4%) a'r gwledydd derbyn A8 a ymunodd â'r UE yn 2004 (trafodir ymhellach isod). Y prif wledydd tarddiad yw Gwlad Pwyl (12,100), India, (8,700), Yr Almaen (6,500), Iwerddon (4,400), Ynysoedd y Philipines, (3,200), De Affrica (3,200) a'r Unol Daleithiau (2,700).

Bu cynnydd sylweddol yn nifer y gweithwyr ymfudol yn dilyn ehangu'r Undeb Ewropeaidd. Er 2004, mae dros filiwn o weithwyr wedi dod i'r DU o'r wyth gwlad yng

Mae mewnfudo A8 yn cyfeirio at ddinasyddion Gwlad Pwyl, y Weriniaeth Tsiec, Estonia, Hwngari, Latfia, Lithwania, Slofacia a Slofenia sy'n dod i Gymru i fyw ac i weithio.

Mae mewnfudo A2 yn cyfeirio at ddinasyddion Bwlgaria a Rwmania a fydd yn cael yr hawl i weithio yn y DU ar 31 Rhagfyr 2013.

nghanol a dwyrain Ewrop (A8) a ymunodd â'r UE ar yr adeg honno. Erbyn hyn, gwladolion Gwlad Pwyl yw'r grŵp unigol mwyaf o wladolion tramor sy'n byw yn y DU - i fyny o'r 13eg mwyaf ar ddechrau 2004 - a'r grŵp mwyaf o fewnfudwyr sy'n byw yng Nghymru

Ar 31 Rhagfyr, bydd dinasyddion Bwlgaria a Rwmania (gwledydd 'A2') hefyd â'r hawl i weithio yn y DU. Hyd yn hyn, bu gan y ddau grŵp hyn hawliau cyfyngedig i weithio yn y DU. Ceir rhagor o wybodaeth am fewnfudo A8 ac A2 yn ein papur briffio ar **Mewnfudwyr Rhynglwadol i Gymru**

Mae ymchwil yn awgrymu yr ymunodd tua 22,300 o fewnfudwyr A8 â marchnad lafur Cymru rhwng Mai 2004 a Mai 2008 ond ni wyddys faint o weithwyr ymfudol sydd wedi gadael ers yr adeg honno, neu faint a gyrhaeddodd heb gofrestru. (Shiple 2008)

Mae dros hanner yr holl weithwyr ymfudol o ganol a dwyrain Ewrop sy'n byw yng Nghymru yn Sir Gaerfyrddin (Llanelli), Caerdydd, Casnewydd a Wrecsam

Mae nifer y mewnfudwyr A8 sy'n byw yng Nghymru yn aneglur ac mae'r darlun yn newid yn barhaus. Mae'n ymddangos yn debygol y cafodd niferoedd y gweithwyr ymfudol mewn llawer o ardaloedd yng Nghymru eu hamcangyfrif yn rhy isel o lawer

Yn ôl ymchwil bresennol sy'n seiliedig ar ddata o'r Cynllun Cofrestru Gweithwyr (WRS), **ymunodd tua 22,300 o fewnfudwyr A8 â marchnad lafur Cymru rhwng Mai 2004 a Mawrth 2008** (Shiple 2008). Fodd bynnag, ni wyddys faint o'r mewnfudwyr hyn sydd wedi gadael Cymru ers hynny na faint a ddaeth heb gofrestru (naill ai oherwydd nad oedd angen iddynt wneud, e.e. oherwydd eu bod yn hunangyflogedig, neu oherwydd nad oeddent yn ymwybodol o'r angen i gofrestru). Nid yw'r Cynllun Cofrestru Gweithwyr yn weithredol bellach

Mae'n bwysig cydnabod bod llawer o'r mewnfudo o'r gwledydd A8 wedi'i ganolbwyntio'n ddaearyddol mewn ardaloedd penodol o Gymru. **Mae dros hanner yr holl weithwyr ymfudol o ganol a dwyrain Ewrop sy'n byw yng Nghymru yn Sir Gaerfyrddin (Llanelli), Caerdydd, Casnewydd a Wrecsam.** Fodd bynnag, hyd yn oed yn yr ardaloedd hyn, mae gweithwyr ymfudol yn cyfrif am gyfran gymharol isel o gyfanswm y gyflogaeth, sef ychydig dros 3% (Winckler 2007)

Mae dwy ran o dair o weithwyr ymfudol A8 yng Nghymru'n dod o Wlad Pwyl, ac mae un rhan o chwech arall yn dod o Slofacia. Yn Sir Gaerfyrddin, roedd Pwyliaid yn cyfrif am 94% o weithwyr ymfudol yn 2007 (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2010). Mae nifer y gweithwyr o wledydd A8 sydd wedi cofrestru ers 2006 wedi disgyn yn sylweddol ond mae nifer fawr o hyd mewn rhai ardaloedd (yn enwedig Wrecsam a Llanelli).

Mae'n debygol, yn sgil diddymu cyfyngiadau ar gyflogaeth i wladolion Bwlgaria a Rwmania ar 31 Rhagfyr 2013, y bydd rhywfaint o gynnydd o ran mewnfudo o'r gwledydd hyn ond **mae'n anodd rhagweld graddfa'r mewnfudo'n gywir** (IPPR 2006; APPG 2013). Mae'n rhaid i unrhyw ragfynegiadau ystyried nifer o ffactorau gwahanol, gan gynnwys y sefyllfa economaidd ym Mwlgaria a Rwmania a'r DU a'r ffaith bod diaspora Bwlgaraidd a Rwmanaidd yn y DU yn amrywiol ond yn fach o'u cymharu â rhai cymunedau A8 cyn 2004.

Effeithiau ar economi'r DU

Mae effeithiau mewnfudo ar y farchnad lafar yn dibynnu'n allweddol gritigol ar sgiliau'r mewnfudwyr,

sgiliau'r gweithwyr presennol a nodweddion yr economi gartref. Mae tystiolaeth ymchwil ar effeithiau mewnfudo economaidd felly bob amser yn benodol i amser a lle. (Arsyllfa Mewnfudo 2012b).

Mae trafodaethau am effeithiau mewnfudo economaidd yn troi o gwmpas dau fater allweddol: yr effaith ar gyflogaeth ar gyfer gweithwyr brodorol a'r effaith ar lefelau cyflogau. Mae effaith mewnfudo llafur ar swyddi a chyflogau'n ganolog i'r drafodaeth ehangach ar fewnfudo i'r DU.

Mae'r gred bod mewnfudo'n arwain at ddiweithdra uwch a chyflogau is yn eang, yn boblogaidd a chaiff ei ailadrodd yn ddiderfyn fel petai'n ffaith. Ond mae tystiolaeth gadarn yn brin a cheir ychydig iawn naill ai mewn damcaniaeth economaidd neu waith empirig diweddar i awgrymu bod mewnfudo'n cael effaith negyddol sylweddol ar farchnad lafur y DU. I'r gwrthwyneb, **mae'n ymddangos bod lefelau uchel diweddar o ran ymfudo mewnol, ar y cyfan, wedi bod yn fantais sylweddol ar gyfer economi'r DU yng nghyd-destun y dirwasgiad economaidd byd-eang** (Coats 2008).

Arweinir y drafodaeth gyhoeddus gan amgyffrediad bod nifer benodedig o swyddi yn yr economi (y dwyllresymeg 'lump of labour') ac y bydd mewnfudo'n ychwanegu at ragor o gystadleuaeth am y swyddi hyn. Mae dwy broblem i'r ymagwedd hon:

- **Mae mewnfudwyr yn dod o ystod eang o gefndiroedd a chânt eu cyflogi nid yn unig mewn swyddi mae gwladolion yn anfodlon eu gwneud, ond maent hefyd yn weithgareddau gwerth uchel sy'n llenwi bylchau yn y farchnad lafar.** Mewn geiriau eraill, nid yw mewnfudwyr bob amser yn cystadlu am swyddi gyda gweithwyr brodorol;
- **Mae mewnfudo'n creu dynamiaeth yn y farchnad lafur ac yn yr economi'n fwy cyffredinol.** Ceir barn a ddelir yn eang, yn absenoldeb mewnfudo byddai'r DU wedi profi twf arafach, chwyddiant uwch a chyfraddau llog uwch (Coats 2008).

Mae ymchwil a dadansoddiadau economaidd yn dangos, yn gyffredinol, bod mewnfudwyr A8 sydd wedi dod i'r DU ar ôl 2004 wedi gwneud cyfraniad ariannol net i'r DU heb unrhyw effaith negyddol ar system lles y DU. Yn bennaf, mae mewnfudwyr A8 wedi bod yn ifanc, gyda lefelau uchel o addysg a sgiliau, o'u cymharu â'r boblogaeth frodorol. O ganlyniad, mae ganddynt gyfradd uwch o gyfranogi yn y llafurlu, yn talu'n gyfatebol fwy mewn trethi anuniongyrchol, ac yn defnyddio llai o fudd-daliadau a gwasanaethau cyhoeddus o lawer (Dustmann et al. 2010)

Yn nhermau lefelau cyflogaeth, mae tystiolaeth bresennol yn awgrymu nad yw mewnfudwyr yn cymryd swyddi oddi wrth weithwyr y DU. I'r gwrthwyneb, yn aml, mae mewnfudwyr yn gweithio mewn sectorau a rhanbarthau sydd â lefelau uchel o swyddi gwag sy'n anodd eu llenwi. Yng Nghymru, dyfynnir y ffatri prosesu cig yn Llanybydder yn aml fel enghraifft.

Ceir rhywfaint o dystiolaeth sy'n awgrymu y gallai mewnfudo o'r tu allan i'r UE gael effaith negyddol ar gyflogaeth gweithwyr a anwyd yn y DU, yn enwedig yn ystod dirwasgiad economaidd (Arsyllfa Mewnfudo, 2012b). Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth ymchwil sydd ar gael yn nadansoddiadau'r DU wedi dadansoddi effeithiau mewnfudo ar y farchnad lafur yn ystod y dirwasgiad economaidd presennol.

Mae'r dystiolaeth empirig yn awgrymu'n llethol nad yw mewnfudo'n cael dim effeithiau negyddol neu effeithiau negyddol bach iawn ar gyflogau cyfartalog (Dustmann et al 2007). Mewn rhai astudiaethau gwelwyd bod mewnfudwyr yn codi cyflogau ar frig dosbarthiad cyflogau'r DU ac yn gostwng cyflogau ar y gwaelod gan ganran fach oherwydd y crynodiad uwch o fewnfudwyr diweddar yn y swyddi hyn. (MAC 2012; Arsyllfa Mewnfudo (2012b).

Mae model atchwel IPPR, er enghraifft, yn awgrymu y byddai cynnydd o 1% yng nghyfran mewnfudwyr ym mhoblogaeth oedran gweithio'r DU yn gostwng cyflogau gan tua 0.3%, sef effaith fach iawn sy'n debygol o gael ei wrthbwyso gan y gostyngiad o ran costau nwyddau a gwasanaethau eraill (Reed a Lattore 2009).

Effeithiau yng Nghymru

Mae gweithwyr ymfudol wedi ymgartrefu ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru, ond mae gwahaniaethau lleol a rhanbarthol sylweddol. Mewn rhai achosion, mae mewnfudo wedi digwydd ar raddfa gymharol fach tra bod awdurdodau eraill wedi profi newid demograffig dwys. Mae'r prif gymunedau ymfudwyr yng Ngogledd Cymru wedi cael eu nodi fel **Wrecsam**, ystad ddiwydiannol **Glannau Dyfrdwy** ac ardaloedd o'i hamgylch, **Gogledd Sir y Fflint**, **Llandudno**, **Bangor** a ffatrioedd yn **Llangefni a Gaerwen** ac yn Ne Cymru, **Llanelli**, **Caerdydd a Chasnewydd** (Pwyllgor Materion Cymru Tŷ'r Cyffredin 2009).

Er bod graddfa ac effeithiau lleol mewnfudo yn gymhleth ac yn anodd eu rhagweld, mae tystiolaeth bresennol yn awgrymu bod **ychydig iawn (os unrhyw beth) o arwyddion bod mewnfudo'n cael effeithiau negyddol ar farchnad lafur Cymru.** Casglodd Pwyllgor Materion Cymru Tŷ'r Cyffredin (2009) dystiolaeth ar fewnfudo diweddar i Gymru o ystod eang o sefydliadau yn ystod ei ymchwiliad i effeithiau globaleiddio, ac ni ddaeth o hyd i unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod gweithwyr ymfudol yng Nghymru wedi bod yn fygythiad i wasanaethau lleol. Yn hytrach, **mae mewnfudo'n gyffredinol yn cynrychioli hwb economaidd sylweddol i Gymru.** Mae'n bwysig cadw mewn golwg fod gan Gymru eisoes y boblogaeth hynaf yn y DU; mae 17% o'r bobl dros 65 oed ac mae'r tueddiad hwn yn debygol o gynyddu'n ddramatig. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am y tueddiadau demograffig hyn ar **Mewnfudo i Gymru.** Hefyd, daeth y Pwyllgor i'r casgliad **na fu unrhyw effaith ganfyddadwy gan fewnfudo A8 ar nifer y rhai oedd yn ddi-waith na deilliannau cyflogaeth y rhai nad ydynt yn fewnfudwyr yng Nghymru.** Mae'n ymddangos

mai'r effaith bennaf oedd cynyddu cyfanswm y rheiny oedd yn gweithio.

Mae Lemos (2010), yn yr un modd, wedi archwilio effaith mewnfudo economaidd ar y farchnad lafur ac wedi dod o hyd i ychydig o dystiolaeth yn unig fod y cynnydd o ran mewnfudwyr i Gymru o'r gwledydd A8 wedi arwain at ostyngiad mewn cyflogau neu gynydd mewn diweithdra rhwng 2004 a 2006. Ni ddaeth yr astudiaeth o hyd i unrhyw dystiolaeth o effaith niweidiol ar ddiweithdra hawlwr sy'n ifanc, yn fenywaidd neu â sgiliau isel a dim tystiolaeth o effaith niweidiol ar gyflogau'r rhai sydd â chyflogau isel. Os unrhyw beth, ceir effaith gadarnhaol ar gyflogau gweithwyr sydd â chyflogau uwch a rhywfaint o dystiolaeth, er yn wan, o effaith a allai fod yn ffafriol o bosibl ar gyfraddau cyflogaeth.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) wedi ystyried effeithiau cymdeithasol mewnfudo economaidd i Gymru mewn tair ardal: Sir Gaerfyrddin, Casnewydd a Wrecsam. Mae'r ymchwil yn gweld bod **cynnydd o ran gweithwyr ymfudol wedi golygu bod rhai elfennau penodol o wasanaethau wedi wynebu rhagor o bwysau, naill ai drwy alw ychwanegol neu drwy newidiadau angenrheidiol i'r dull cyflwyno gwasanaethau.** Er nad yw gofynion gweithwyr ymfudol lawer yn wahanol i rai'r gymdeithas gartref, mae cyflwyno'r gwasanaethau'n gofyn am rywfaint o addasu, er enghraifft, o ran darparu llenyddiaeth mewn ieithoedd eraill neu gyflogi cyfieithwyr. Bu ond ychydig o gyllido ychwanegol neu adnoddau yn y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol er mwyn mynd i'r afael ag anghenion gweithwyr ymfudol. Mae gwasanaethau'n datblygu'n araf ac mewn ffordd adweithiol, gan geisio am gyllid gan wahanol ffynonellau ar sail *ad hoc*.

Profiadau gweithwyr ymfudol

Mae nifer o astudiaethau diweddar yn archwilio profiadau gweithwyr ymfudol sy'n byw yng Nghymru. Gwelodd ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (2010) fod **gweithwyr ymfudol yn tueddu byw mewn ardaloedd sydd o dan anfantais gymdeithasol o fewn Sir Gaerfyrddin, Wrecsam a Chasnewydd** oherwydd bod y rhain yn fwy tebygol nag ardaloedd eraill i gynnwys llety i'w rentu am gost isel. Yn aml, mae gan gymunedau cartref y cymdogaethau hyn lefelau isel o sgiliau a chymwysterau, a lefelau uchel o ddiweithdra; ac eithrio Pillgwenlli yng Nghasnewydd, ychydig o brofiad oedd ganddynt yn unig o fewnfudo ar raddfa fawr. Mae'n bosibl y bydd rhwystrau o ran iaith a gwahaniaethau diwylliannol yn gwaethygu problemau ar gyfer gweithwyr sy'n symud i mewn i'r ardaloedd hyn.

Ceir **barnau cymysg am ba mor dda y cafodd poblogaeth y gweithwyr ymfudol eu derbyn i'r gymdeithas gartref.** Er bod cynrychiolwyr o'r sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol wedi siarad am gamsyniadau sy'n seiliedig ar gyffredinoli gan y cyfryngau, ni fynegodd y gweithwyr ymfudol eu hunain

unrhyw bryderon mawr ynghylch peidio â bod yn ddiogel neu heb gael croeso yng Nghymru. Fodd bynnag, dangosodd cyfweiliadau farnau cymysg am lefelau hiliaeth neu wrthdaro hiliol ym mhob un o'r ardaloedd.

Yn tynnu ar dystiolaeth storïol gyfyngedig sydd ar gael gan Gyngorau Cydraddoldeb Hiliol yng Nghymru, **mae gweithwyr ymfudol yn cyfeirio at broblemau mewn perthynas â chyflogwyr diegwyddor, diffyg sgiliau iaith yn Gymraeg a Saesneg, ac mewn rhai achosion, gwasanaethau sydd wedi'u haddasu'n wael.** Gall y materion hyn achosi unigedd a chael effaith uniongyrchol ar allu gweithwyr ymfudol i wireddu eu potensial ac integreiddio i gymdeithas Cymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2010).

Mae nifer o astudiaethau wedi nodi **adroddiadau am arferion anghyfreithlon o ran cyflogi gweithwyr ymfudol yng Nghymru,** yn ogystal ag arferion sy'n gyfreithlon ond fe'u hystyrir yn gyffredinol yn annerbyniol, er bod pob astudiaeth yn dibynnu ar hanesion trydydd parti, yn hytrach na thystiolaeth uniongyrchol (Winckler, 2007; Hold et al, 2005; Turunen et al, 2005). Adroddwyd am faterion cytundebol megis oriau a gafodd eu gweithio, oriau amrywiol, goramser gorfodol a diffyg tâl am oramser, a thaliadau fesul sifft yn hytrach nag oriau gwirioneddol a gafodd eu gweithio, ynghyd â diffyg cyfnodau gorffwys priodol a chontractau'n cael eu llofnodi o dan orfodaeth.

Mae Cam (2007) yn amcangyfrif bod y gweithwyr ymfudol yng Nghymru'n ennill 17.7% yn llai na gweddill y gweithlu, o'i fesur drwy enillion wythnosol, a 21.7% yn llai o'i fesur drwy enillion fesul awr. Mae'r bwch rhwng gweithwyr ymfudol a gweddill y gweithlu'n fwy yng Nghymru nag yw yn unman arall yn y DU. Mae rhagor o ddadansoddi yn awgrymu bod mwy na 26% o weithwyr ymfudol yn ennill yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol (NMW) neu'n is na hynny, o'i gymharu â thua 14% o weddill y gweithlu yng Nghymru. Mae ymchwil gan Winckler (2007), Turunen et al (2005) a Hold et al (2005) wedi dod o hyd i dystiolaeth storïol am weithwyr ymfudol yn cael eu talu'n is na'r isafswm cyfreithlon.

Er y tan-adroddir amdano o hyd, cafodd hiliaeth mewn cyflogaeth ei chofnodi mewn rhai ardaloedd yng Nghymru. (Crawley 2012)

Profiadau ffoaduriaid

Ni chaiff ceiswyr lloches weithio yn y DU tra bod eu ceisiadau am loches yn cael eu hystyried. **Mae gan y rhai a gafodd statws ffoaduriaid yr hawl i weithio ond yn aml maent yn profi lefelau gwael o dan-gyflogaeth a diweithdra,** er gwaethaf y ffaith iddynt ddod i Gymru gyda chymwysterau da a phrofiad gwaith blaenorol yn eu mamwledydd. Gall cael cydnabyddiaeth ac achrediad ar gyfer cymwysterau tramor fod yn rhwystr sylweddol rhag cyflogaeth.

Gwelodd archwiliad o sgiliau a chymwysterau ffoaduriaid a gynhaliwyd gan Gyngor Ffoaduriaid Cymru yn 2007 fod bron dwy ran o dair (64%) o

ffoaduriaid yng Nghymru'n ddi-waith o'i gymharu â 22% yn unig yn y famwlad. Y pum rhwystr mwyaf rhag cyflogaeth a nodwyd oedd: diffyg sgiliau iaith neu gyfrifiadurol, anawsterau o ran gwneud cais am swyddi a mynychu cyfweiliadau, diffyg cydnabyddiaeth o gymwysterau tramor, anawsterau o ran dod o hyd i swyddi gwag a diffyg geirdaon.

Yn yr un modd, gwelodd arolwg o ffoaduriaid sy'n byw yng Nghymru, er bod bron i ddwy ran o dair o ymatebwyr wedi'u cyflogi mewn amrywiaeth o alwedigaethau cyn dod i'r DU, roedd gan lai na thraean (31.7%) swydd yng Nghymru (Crawley a Crimes 2009). O'r ffoaduriaid hynny a oedd yn gyflogedig, roedd y rhan fwyaf ohonynt mewn swyddi gweinyddol neu glercyddol, glanhau neu waith ffatri. Nid oedd bron hanner sy'n cael eu cyflogi yn teimlo bod eu swydd yn briodol i'w cymwysterau, eu sgiliau a'u profiadau.

Dywedodd llawer o ffoaduriaid eu bod wedi cael profiad o **hiliaeth a gwahaniaethu** o ran dod o hyd i gyflogaeth ac yn eu profiadau yn y gweithle. Codwyd materion yn ymwneud â lliw croen, crefydd a chodau gwisg (sgarffiau pen yn benodol) fel achosion gwahaniaethu. Mae llawer o ymatebwyr yn credu nad ydynt yn cael eu dewis ar gyfer cyfweiliadau swyddi oherwydd nid oes ganddynt enw Saesneg (neu Gymraeg).

Cyfeiriadau a rhagor o wybodaeth

Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Fewnfudo (AAPG) (2013) *Learning from the Past, Planning for the Future: Immigration from Romania and Bulgaria from 2014*, www.appmigration.org.uk/sites/default/files/A2%20Migration.pdf

Cam, S. (2007) *Migrant Workers in Wales: A Comparison between Wales and the Rest of Britain*. Caerdydd: Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd, Papur Gweithio rhif 94 www.caerdydd.ac.uk/socsi/resources/wrkpaper-94.pdf

Coats, D. (2008) *Migration Myths: Employment, Wages and Labour Market Performance*, Llundain: The Work Foundation, www.theworkfoundation.com/assets/docs/publications/33_migration%20myths.pdf

Crawley, H. (2012) *Race Equality and Racism in Wales: An Exploratory Study*, Race Council Cymru <http://t.co/978cyj9N>

Crawley, H. a Crimes, T. (2010) *Refugees Living in Wales: A Survey of Skills, Experiences and Barriers to Inclusion*, Llywodraeth Cynulliad Cymru, www.swan.ac.uk/media/media,41835,en.pdf

Dustmann, C., Frattini, T. a Halls, C. (2010) 'Assessing the fiscal costs and benefits of A8 migration to the UK', *Fiscal Studies* 31(1), 1-41 www.ucl.ac.uk/~uctpb21/Cpapers/DustmannFrattiniHalls2010.pdf

Dustmann, C., Frattini, T. a Glitz, A. (2007) The impact of migration: a review of the economic

evidence November 2007 www.ucl.ac.uk/~uctpb21/reports/WA_Final_Final.pdf

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) (2009) *Equality Issues in Wales: A Research Review*, Caerdydd, www.equalityhumanrights.com/uploaded_files/research/11_equality_issues_in_wales_-_a_research_review.pdf

Hold, M., Korszon, K., Kotchetkova, K. a Grzesiak, F. (2005) *Gweithwyr Mewnfuldol yn Sir y Fflint*, Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru

Pwyllgor Materion Cymru Tŷr Cyffredin (2009) *Globalisation and its Impact on Wales*, Llundain: Y Llyfrfa www.publications.parliament.uk/pa/cm200809/cmselect/cmwelaf/184/184i.pdf

Lemos, S. (2010) Labour Market Effects of Eastern European Migration in Wales, University of Leicester Working Paper 10/03 www.le.ac.uk/ec/research/RePEc/lec/leecon/dp10-03.pdf

Pwyllgor Ymgynghorol ar Fewnfudo (MAC) (2012) *Analysis of the Impacts of Migration*, Llundain: Y Swyddfa Gartref www.ukba.homeoffice.gov.uk/sitecontent/document/s/aboutus/workingwithus/mac/27-analysis-migration/01-analysis-report/analysis-of-the-impacts?view=Binary

Arsyllfa Mewnfuldol (2012) *Labour Market Effects of Immigration*, Prifysgol Rhydychen, www.migrationobservatory.ox.ac.uk/sites/files/migobs/Briefing%20-%20Labour%20Market%20Effects%20of%20Immigration_0.pdf

Reed, H. a Latorre, M. (2009) *The Economic Impacts of Migration on the UK Labour Market. The Economics of Migration*, Llundain: IPPR

Turunen, D., Holmes, M., Ralvik, E., Trimm, L. a Tanveer, T. (2005) *Workers from Outside the UK in the Conwy Local Authority Area*, Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru

Llywodraeth Cymru (2013) *AARolwg Poblogaeth Blynyddol: Blwyddyn Galendr 2012*, Caerdydd: Ystadegau Cymru,

<http://wales.gov.uk/docs/statistics/2013/130321-annual-population-survey-2012-en.pdf> DMae data ar gael ar

<https://stats.wales.gov.uk/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Employment/Persons-Employed>

Llywodraeth Cymru (2011) *Ystadegau Mewnfuldol Cymru* <http://wales.gov.uk/docs/statistics/2011/111118sb1042011ren.pdf>

Llywodraeth Cymru (2011) *Rhaglen Lywodraethu: Cydraddoldeb* <http://wales.gov.uk/docs/strategies/110929chap8en.pdf>

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) *Mesur Effaith Gymdeithasol Mewnfudo ar Lefel Awdurdod Lleol*, Caerdydd: LICC
<http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/research/100610migrati onreporten.pdf>

Cyngor Ffoaduriaid Cymru (2005) *An Audit of Refugee Skills and Qualifications in Wales - A Research Summary*. Caerdydd: Cyngor Ffoaduriaid Cymru

Winckler (2007) *One Workforce: Migrant workers in Wales – a Trade Union report*, Caerdydd: TUC Cymru,
www.tuc.org.uk/extras/migrantworkerswtuc.pdf

Ynglŷn â'r gyfres o bapurau briffio

Mae'r papur briffio hwn yn un o gyfres a luniwyd gan yr Athro Heaven Crawley, Cyfarwyddwr y Ganolfan Ymchwil ar Bolisi Mewnfudo (CMPR) ym Mhrifysgol Abertawe i wella gwybodaeth a dealltwriaeth am faterion mewnfudo yng Nghymru. Mae'r papurau'n rhestru'r dystiolaeth ar fewnfudo i Gymru mewn perthynas â materion a themâu allweddol sy'n gonsyrn i'r cyhoedd ac o ran polisi ac maent yn darparu gwybodaeth ddiweddar am gyfansoddiad a phrofiadau'r poblogaethau sy'n mewnfudo, sy'n geiswyr lloches ac sy'n ffoaduriaid ac yn byw yng Nghymru.

Gellir lawrlwytho'r papurau briffio o www.wmp.org.uk

Gellir lawrlwytho data ac adnoddau ychwanegol o Borth Mewnfudo Cymru

<http://wmp.infobasecymru.net/VIAS>

Mae Partneriaeth Ymfudo Cymru yn croesawu atgynhyrchu'r papur briffio hwn at ddibenion cynrychioli, addysg, hyfforddiant ac ymgyrchu, ar yr amod na chodir tâl am ddefnyddio'r deunydd a chyhyd ag y cydnabyddir ffynhonnell y wybodaeth.